**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

3 Hydref 2023

Annwyl Huw,

**Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Diwygiadau Amrywiol) 2023**

Diolch am eich llythyr ar 22 Medi 2023 yn gofyn am ymateb i gwestiynau a godwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (LJCC) yn ei gyfarfod ar 18 Medi 2023.

Fe wnaf i fynd i'r afael â'ch cwestiynau yn y drefn y gwnaethoch eu cyflwyno yn eich llythyr.

1. Mae'r Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Diwygiadau Amrywiol) ("y Rheoliadau") yn cael eu gwneud gan ddefnyddio pwerau yn Neddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 ("Deddf REUL"). Er nad oes gweithdrefn gydsynio statudol wedi'i chynnwys yn adran 14 o Ddeddf REUL, ysgrifennodd Gweinidog y DU dros Ansawdd a Chadernid Amgylcheddol, Rebecca Pow, ataf yn gofyn am fy nghydsyniad ar gyfer y Rheoliadau. Mae hyn yn unol â safbwynt Llywodraeth Cymru mai dim ond gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru y dylai is-ddeddfwriaeth gael ei wneud gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â Chymru ar faterion datganoledig. Gan fod y ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig, mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y ddeddfwriaeth yn adlewyrchu bod swyddogion DEFRA wedi cydweithio â Llywodraethau Datganoledig Cymru a'r Alban i ddatblygu'r offeryn, a chytunwyd ar y polisi ar draws y tair gwlad.

2. Yn unol â'r Fframwaith Cyffredin dros dro ar gyfer Cemegion a Phalaladdwyr, mae swyddogion DEFRA wedi ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r Rheoliadau ar y cyd ac ymgynghorwyd â mi ar delerau'r Rheoliadau drwyddi draw.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

3. Cyn fy mhenderfyniad i roi cydsyniad, cynhaliodd swyddogion Llywodraeth Cymru asesiad o'r pŵer penodol yn y Ddeddf REUL a ddefnyddir i wneud y Rheoliadau hyn. Cadarnhaodd swyddogion eu bod o'r farn mai adran 14(2) o'r REUL oedd y ddarpariaeth gywir a phriodol ar gyfer gwneud y Rheoliadau hyn. Mae adran 14(2) yn bŵer cydredol sy'n cael ei arfer yma gan Lywodraeth y DU ar ran Gweinidogion Cymru ar faterion o fewn maes datganoledig. Er nad oes gofyniad cyfreithiol i ofyn am gydsyniad, mae Llywodraeth y DU wedi gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru yn unol â'r confensiwn ar ddeddfu mewn meysydd datganoledig.

4. Cyn fy mhenderfyniad i roi cydsyniad, ystyriodd swyddogion Llywodraeth Cymru Atodlen 5 o'r Ddeddf REUL o ran y weithdrefn gwneud rheoliadau ac ystyriwyd y dewis a wnaed gan Lywodraeth y DU o ran y weithdrefn graffu. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn fodlon y byddai'r prosesau perthnasol yn cael eu dilyn mewn perthynas â gwneud yr is-ddeddfwriaeth hon.

5. Mae swyddogion yn Llywodraeth y DU wedi cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) sydd wedi'i rannu â swyddogion Llywodraeth Cymru ar ffurf ddrafft. Mae'r RIA yn cynnwys ystyriaeth o'r opsiynau, y costau a'r manteision rheoleiddiol a'r rhai nad ydynt yn rheoleiddiol. Yr opsiwn a ffefrir yw cynnal y status quo trwy ymestyn darpariaethau trosiannol presennol, neu a ddaeth i ben yn ddiweddar, er mwyn i'r ddeddfwriaeth arfaethedig beidio â chynyddu unrhyw faich rheoleiddiol.

Yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**